HUET, THOMAS (bu farw 1591), cyfieithydd yr Ysgrythurau

Enw: Thomas Huet
Dyddiad marw: 1591
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfieithydd yr Ysgrythurau
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Glanmor Williams

Aeth i Goleg Corpus Christi, Rhydychen, yn 1544. Nid yw'n debygol mai efe oedd yr Huet a raddiodd (B.A.) yn 1562, serch y dywedir iddo ddyfod yn D.D. Cafodd nifer o fywiolaethau - swydd meistr Holy Trinity College, Pontefract, rheithoraethau Cefnllys a Llanbadarn ym Maelienydd, sir Faesyfed, 9 Mai 1556, prebendiaeth Llanbadarn Trefeglwys, Sir Aberteifi, 29 Tachwedd 1559, rheithoraeth Diserth, 21 Ebrill 1560, ei ddewis yn brifgantor Tyddewi, 27 Ebrill 1560, a chael ei ethol yn ganon yno ar 30 Ebrill 1561, prebendiaeth Ystrad, Sir Aberteifi, yn 1565, a phrebendiaeth Llandegla, sir Faesyfed. Cafodd ei gymeradwyo gan yr esgob Richard Davies a'r archesgob Parker i'w ddewis yn esgob Bangor ym mis Ionawr 1566 eithr nis etholwyd. Tanysgrifiodd i'r Deugain namyn Un Erthygl yn 1562.

Cyfieithodd lyfr y Datguddiad i Destament Newydd (Cymraeg) 1567. Yn 1571 diswyddodd glochydd eglwys gadeiriol Tyddewi am i hwnnw ddirgelu llyfrau pabyddol, a pharodd losgi'r llyfrau hynny. Gwnaeth ef a'i berthnasau gryn elw trwy brydlesu tiroedd eglwysig a gwerthu hawliau i fywiolaethau. Bu farw 19 Awst 1591 yn y Tŷ Mawr, Llysdinam, a chladdwyd yng nghangell Llanafan Fawr (Brycheiniog). Am rai o'i deulu, gweler dan ' Gwynne o'r Garth.'

Awdur

Syr Glanmor Williams

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Athenae Cantabrigienses (1858â€"1913), ii, 108

Jones a Edward Augustus Freeman, *The History and Antiquities of St. David's* (1856), 338-46

E. Yardley, *Menevia Sacra. Arch. Camb.* (1927)

W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl 1922), 47-50

Bulletin of the Board of Celtic Studies, ix, 274

S. David's Chapter Acts (yn Ll.G.C.), cyfrolau A a B

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, 3ydd arg., ii, 227

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Huet

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 2495653

Wikidata: Q7790877

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Williams, G., (1953). HUET, THOMAS (bu farw 1591), cyfieithydd yr Ysgrythurau. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 7 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUET-THO-1591

Copïo'r cliptrwydd

Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government